**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU
A GYNHALIWYD AR 27 MEDI 2016 YN NHŶ HASTINGS.**

**Yn bresennol:** Mr. Owen Watkin (Cadeirydd); Mr. Ceri Stradling; Mr. David Powell; Mrs. Julie May a Mr. Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr. Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr. Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr. Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mr. Daniel Mosley (Swyddog Arolygon) a Mrs. Catherine Thomas (Cynorthwyydd Arolygon).

**Ymwelwyr:** Yr Athro Colin Mellors (Cadeirydd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol I Loegr).

**Amser Dechrau:** 09:30
**Amser Gorffen:** 12:30

**Ymddiheuriadau:** Mrs Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr)

1. **Datganiadau o Fuddiant**

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

**2. Briff gan y Cadeirydd**

2.1. Estynnodd y Cadeirydd a'r Comisiwn eu cydymdeimlad i Rachel Williams a'i theulu yn sgil eu profedigaeth ddiweddar.

2.2. Briffiodd y Cadeirydd yr Athro Mellors ar waith y Comisiwn a'r cyfnod o arolygon y bydd yn eu cynnal cyn bo hir.

2.3. Dywedodd y Cadeirydd fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi cytuno'r rhaglen ar gyfer yr arolygon newydd. Roeddent yn disgwyl cydsyniad ffurfiol ar gyfer y Model Maint Cynghorau a'r ddogfen Polisi ac Arfer, ond, gan ystyried y graddfeydd amser presennol a'r angen i gyfarfod â rhanddeiliaid, gellid eu defnyddio fel dogfennau gweithio, a gellid gwneud trefniadau i ddechrau cyfathrebu gyda rhanddeiliaid allweddol ynglŷn â'r arolygon sydd ar ddod.

2.4. Hysbyswyd Aelodau gan y Cadeirydd fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi cytuno i fynychu cyfarfod briffio gyda'r Comisiwn ar 1 Rhagfyr yn Nhŷ Hastings.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 23 Awst 2016**

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Awst 2016 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

**4. Materion yn Codi**

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 13 Medi 2016 gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn gyffredinol gan nodi'r materion i'w

trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod hwn, a **nodwyd** hefyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol:

- (Mater 1, 2, 3) Arolygon Etholiadol – Amserlen, Polisi ac Arfer a Model Maint Cynghorau – Roedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi derbyn y dogfennau a gallai'r Comisiwn ddechrau ar waith paratoadol ar gyfer yr arolygon sydd i ddod ar sail yr hyn a nodwyd yng nghofnod 2.3 uchod.
- (Mater 4) Arolygon Etholiadol – Ystadegau Etholiadol – Mae'r ystadegau etholiadol wedi'u derbyn erbyn hyn ar gyfer yr holl Gynghorau bron. **Dirprwy Brif Weithredwr a'r Swyddogion Arolygon**
- (Mater 5) Cyfathrebu â Rhanddeiliaid Arolygon Etholiadol – Gall y Comisiwn ddechrau cysylltu â rhanddeiliaid yn awr i drefnu cyfarfodydd. **Prif Weithredwr**
- (Mater 7) Staffio – recriwtio Dau Swyddog Arolygon – Mae cyfnod recriwtio arall ar waith a bydd yn cau ar 12 Hydref. Mae gwaith yn cael ei wneud hefyd i archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio cynllun prentisiaeth o fewn Llywodraeth Cymru i lenwi rolau Swyddogion Arolygon. **Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cymorth Busnes**
- (Mater 10) Telerau ac Amodau Staff – Mae trafodaethau pellach yn parhau gyda Llywodraeth Cymru. **Prif Weithredwr**
- (Mater 12) Safonau'r Gymraeg - Mae gwaith yn cael ei wneud i sicrhau y gall y Comisiwn gydymffurfio â'r holl safonau gofynnol dros y misoedd i ddod. **Rheolwr Cymorth Busnes a'r Prif Weithredwr.**
- (Mater 14) Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus – Oherwydd y newidiadau yng nghynlluniau gwaith y Comisiwn, nid oes angen uniongyrchol am gyfarfod pellach gyda Chomisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus. **Prif Weithredwr**
- (Mater 17) Strategaeth TG – Bydd papur yn cael ei baratoi a'i gyflwyno i'r Comisiwn yn y cyfarfod nesaf. **Dirprwy Brif Weithredwr.**

5. **Llythyr Cylch Gwaith diwygiedig**

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 14 Medi 2016 gan y Prif Weithredwr.

5.2. **Nodwyd** yr adroddiad a'r Llythyr Cylch Gwaith diwygiedig gan y Comisiwn.

5.3. **Derbyniwyd** yr ymateb gan y Comisiwn, yn amodol ar rai mân ddiwygiadau, ac mae i'w anfon at Ysgrifennydd y Cabinet ar ran y Cadeirydd.

5.4. Byddai'r Prif Weithredwr yn dechrau gwaith ar Gynllun Gweithredol 2016/17 ar sail y Llythyr Cylch Gwaith.

**6. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risgiau**

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 14 Medi 2016 gan y Rheolwr Cyllid.

6.2. **Cytunodd** y Comisiwn y gofrestr risgiau wedi'i diweddaru a'r adroddiad rheoli risg yn amodol ar y diwygiadau canlynol i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol:

- CR1 – cam lliniaru ychwanegol i'w gynnwys i gwmpasu bwriad Llywodraeth Cymru i roi gwybodaeth gyson i Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru am

unrhyw ddatblygiadau a newidiadau i bolisi yn deillio o Brexit, gan gynnwys unrhyw effaith ar gyllid, trwy gyfarfodydd chwarterol Penaethiaid Adnoddau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

- CR10 – lleihau sgôr y risg gynhenid o 5 a 3 a’r risg weddilliol i 3 a 3.

**Rheolwr Cyllid**

## 7. Adroddiad ar y Gyllideb

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 14 Medi 2016 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. **Nododd** a **Chytunodd** y Comisiwn yr adroddiad a’r diwygiadau a ddangoswyd yn dilyn y dyraniad cyllideb ychwanegol a gytunwyd i CFfDLC yn Llythyr Cylch Gwaith Ysgrifennydd y Cabinet. Adroddwyd bod nifer o gategorïau cyllideb wedi’u newid i adlewyrchu’r cyllid ychwanegol, ynghyd â newidiadau a ragwelir i’r strwythur staffio. Nodwyd y newidiadau hyn i gategorïau cyllideb gan y Comisiwn.

## 8. Brexit – Goblygiadau a Risgiau

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 16 Medi 2016 gan y Rheolwr Cyllid. **Nododd** y Comisiwn y cyfarfod diweddar a gynhaliwyd rhwng Peter Kennedy, Pennaeth Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru, a chyfarwyddwyr Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru i drafod effaith gadael yr UE ar Lywodraeth Cymru a chyrff a noddir ganddi. Yn y cyfarfod hwnnw, cytunwyd y byddai cysylltu’n parhau gyda LlC drwy gyfarfodydd chwe-misol Penaethiaid Adnoddau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

8.2. **Cytunodd** y Comisiwn y dylid adlewyrchu’r ansicrwydd ariannol ynglŷn â’r penderfyniad i adael yr UE drwy ychwanegu cam lliniaru yn ymwneud â chysylltu â LlC trwy gyfarfodydd Penaethiaid Adnoddau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru at risg gorfforaethol CR1 (gweler yr adroddiad Rheoli Risgiau uchod).

8.3. Rhoddwyd ystyriaeth i b’un a ddylai fod risg weithredol ychwanegol i gwmpasu newidiadau posibl i reolau a deddfwriaeth cyflogaeth, amgylcheddol a chaffael. Fodd bynnag, roedd y Comisiwn o’r farn, ar hyn o bryd, cyn bod unrhyw broses ‘Erthygl 50’ yn cael ei chychwyn, y byddai unrhyw risg arall i’r Comisiwn yn ddamcaniaethol ac yn ansicr; ni ddylid adlewyrchu’r rhain felly yn y gofrestr risgiau gweithredol.

## 9. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 14 Medi 2016 gan y Prif Weithredwr ynglŷn â chynnydd presennol adroddiadau.

9.2. Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi cytuno adroddiadau cynigion y Comisiwn ar gyfer trefniadau cymunedol yn Sir y Fflint, Rhondda Cynon Taf, Caerdydd a Chastell-nedd Port Talbot. Bydd Llywodraeth Cymru yn symud ymlaen i wneud y gorchmynion hyn.

9.3. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiynwyr a thrafodwyd trefniadau ganddynt ar gyfer cyfarfodydd cychwynnol o fewn amserlen yr arolygon etholiadol.

**10. Calendr Digwyddiadau**

10.1. **Nodwyd** y Calendr Digwyddiadau.

**11. Unrhyw Fusnes Perthnasol Arall**

11.1. Dim unrhyw fusnes perthnasol arall.

**12. Cyflwyniad gan yr Athro Colin Mellors, Cadeirydd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Loegr**

Rhoddodd yr Athro Colin Mellors amlinelliad o weithgareddau presennol a nodau parhaus y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Loegr. Bu'r Comisiynau yn trafod themâu cyffredin ac yn cymharu prosesau sy'n gysylltiedig â'u harolygon.

Diolchodd y Comisiwn i'r Athro Mellors am y cipolwg gwerthfawr ar arferion yn y Comisiwn yn Lloegr, ac am groesawu'r cyfle i rannu arfer gorau.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth 25 Hydref 2016**